CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

Dyddiad y Cyfarfod: **30 Tachwedd 2023**

Teitl: **Canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2023 (Diweddariad)**

Pwrpas yr adroddiad: **Diweddariad o ddata CA4/5 Ceredigion o Haf 2023**

Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:
Er gwybodaeth

Cefndir:
Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu drosolwg o ganlyniadau Ceredigion ar 28 Medi 2023. Erbyn hyn mae data swyddogol ar gael o Llywodraeth Cymru , a dyma sydd i'w weld isod. Mae hefyd data Cenedlaethol ar gael erbyn hyn, ac roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld y gymhariaeth.

Bydd data terfynol ar gael yn Rhagfyr, felly nodir mai data dros dro yn unig sydd i'w weld isod.

Y Sefyllfa Gyfredol:
Mae'r set o ddata a gyhoeddir gan Llywodraeth Cymru o ran canlyniadau wedi lleihau tipyn dros y blynyddoedd. Erbyn hyn, sgoriau pwyntiau yn unig maent yn eu cyhoedd.,

Mae'r data swyddogol TGAU ond yn edrych ar "gradd gyntaf" yn hytrach na "gradd orau", er enghraifft, os yw disgybl yn cael "C" ym mis Tachwedd, ac wedyn yn ail-eistedd a chael "A" yn yr haf, yr "C" fydd yn cael ei gynnwys.

Yn lleol, rydym yn darparu ysgolion gyda'u sgorau pwyntiau "gradd orau" er mwyn dangos yn well pa gymwysterau mae disgyblion yn eu hennill ar ddiwedd Blwyddyn 11.

	"gradd gyntaf"		*"gradd orau"*
	Ceredigion 2023	**Cymru 2023**	*Ceredigion 2023*
Sgôr pwyntiau wedi'i chapio (Capped9)	357	357	*358*
Pwyntiau Iaith / Llenyddiaeth	40	40	*41*
Pwyntiau Mathemateg / Rhifedd	38	37	*38*
Pwyntiau Gwyddoniaeth	38	37	*38*
Pwyntiau Tystysgrif Her (BAC)	35	32	*35*

O ran y data Safon Uwch, mae data cenedlaethol nawr ar gael ar gyfer A*-B ac A*-C, sydd wedi eu hychwanegu i'r tabl isod er gwybodaeth.

	Ceredigion 2023	Cymru 2023
Gradd A* - A	37.5%	34.2%
Gradd A* - B	61.4%	59.1%
Gradd A* - C	82.5%	80.5%
Gradd A* - E	99.1%	99.5%

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Na – gwybodaeth yn unig

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: -
Cydweithio: -
Cynnwys: -
Atal: -
Integreiddio: -

Argymhelliad / Argymhellion:
Dim

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
MEWNOSOD TESTUN

Enw Cyswllt: Gwion Dafydd

Swyddogaeth: Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd

Dyddiad yr adroddiad: 22/11/23

Acronymau:
LIC – Llywodraeth Cymru

Capped9 - Caiff "sgôr pwyntiau wedi'i chapio" (Cap9) pob disgybl ei chyfrifo drwy ddefnyddio'r 9 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau cydnabyddedig i ddisgyblion o dan 16 oed yng Nghymru, e.e. mae gradd TGAU A* yn werth 58 pwynt, A yn 52 pwynt, B yn 46 pwynt etc. Rhaid cynnwys un gradd TGAU Iaith gyntaf/llenyddiaeth (y gorau), Mathemateg neu Rhifedd (y gorau) a'r Gwyddoniaeth gorau. Wedyn cymerir y sgôr cyfartalog ar draws yr awdurdod.